

Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd

CYMDEITHAS BOB OWEN
Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn
(Awst - Gorffennaf neu
Ionawr - Rhagfyr) i'w anfon i'r
Trysorydd

SWYDDOGION

Cadeirydd:
Rhidian Griffiths
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth, Ceredigion

Ysgrifennydd:

Gwyn Tudur Davies
11 Maes yr Afon, Aberystwyth
Ceredigion SY23 1PL
(01970) 623174

Trysorydd:

Gwyndaf Roberts
Cae'r Hafod, Maes Caled
Dolgellau LL40 1UF
(01341) 423959

Golygydd:

Mel Williams
Tan-y-Castell, Llanuwchllyn
Y Bala, Gwynedd LL23 7TA
ebost:tanycastell@yahoo.com
(01678) 540652

Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas:

Y Swyddogion
Mrs Mair Edwards
R. Geraint Gruffydd
Maredudd ap I Iuw
Dafydd Glyn Lloyd Hughes
E. Wyn James
Dafydd Jones
Huw Ceiriog Jones
Rheinallt Llwyd
Brynley Roberts
Deian ap Rhisiart

Y RHIFYN NESAF

Erthyglau a mân
hysbysebion i'r **GOLYGYDD**

ERBYN Ionawr 31

Neilltuo gofod hysbysebu i'r
TREFNYDD HYSBYSEBION

ERBYN Ionawr 24

Copi o'r hysbyseb i'r
GOLYGYDD

ERBYN Ionawr 31



**Gwasg
Gwynedd**

Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD

Argraffwyr a Chyhoeddwyr

Ffôn: (01286) 674486

RHOIDDION

Bydd rhestr o'r holl roddion yn
ymddangos yn y rhifyn nesaf.

Diolch i bawb sydd wedi
cyfrannu.

Golygyddol

Dyma rifyn olaf blwyddyn arall ac mae'r gefnogaeth i'r Raffl wedi bod yn ardderchog. Rhaid diolch yn arbennig, hefyd, i'r rhai sydd wedi anfon rhoddion ariannol, a'r rhai hynny sydd wedi penderfynu talu drwy archeb banc. Bellach, mae dros hanner yn talu yn y modd hyn. Dyma'r unig ffordd i ddatrys y sefyllfa ariannol os ydym am ddatblygu ymhellach. Bydd yn rhaid mynd ati o ddifrif i ymgyrchu tuag at gynyddu'r aelodau drwy hysbysebu yn y wasg. Gall pob un ohonom genhadu, wrth gwrs. Mi fyddai'n dda pe byddech yn cynnig Tanysgrifiad Blynyddol o'r *Casglwr* yn anrheg Nadolig i'ch cyfeillion. Gadewch inni wybod ac mi yrrwn ni gopi, ynghyd â chyfarchion lliwgar; bydd rhifyn y Nadolig yn rhad ac am ddim iddynt gan gychwyn y Tanysgrifiad ddechrau'r flwyddyn. Beth amdani?

Mae'r drysoryddiaeth wedi newid eleni, ac mae Mr. Gwyndaf Roberts, Dolgellau, wedi cymryd drosodd yr awenau oddi wrth Anne Till. Hoffwn, ar ran y Gymdeithas, ddiolch i Anne am ei gwaith dros y deng mlynedd y bu hi'n ysgwyddo'r swydd. Maes o law, bydd yr holl wybodaeth am danysgrifiad pawb ar y cyfrifiadur ac mi fydd hi'n bosib cael gwybod am y taliadau mewn eiliadau.

Cafwyd Gŵyl Lyfrau lewyrchus iawn yn y Bala, ac mae'n diolch ni i Hafina Clwyd am agor yr Wyl yn swyddogol. Estynnwyd yr Wyl eleni i gynnwys recordiau. Credaf ei bod yn bryd i hyn

ddigwydd gan fod nifer o'r cyhoedd yn taflu hen recordiau Cymraeg am eu bod yn credu nad oes peiriant i chwarae'r hen recordiau 78. Yn ddiweddar, diolch byth, mae chwaraeydd recordiau o'r math yma ar gael ar y farchnad unwaith eto.

Y cam nesaf, rwy'n tybio, fydd mynd ar ôl yr hen ffilmiau lleol a chartref. Cafwyd hyd i nifer o ffilmiau am Ddolgellau mewn sgip, dro yn ôl. Byddai cyfle i bobl eu gweld yn yr Wyl. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol eisoes yn diogelu hen ffilmiau ond mae'n anodd i'r cyhoedd gyrraedd yno i'w gweld. Trefnwyd, hefyd, weithgareddau mylwl i'r plant ac i'r dysgwyr. Buom yn ffodus o gael y Prifardd Iwan Llwyd ac Owen Davies, Cwmni Cortyn, i ddiddanu'r plant yn y prynhawn. Yn y rhifyn cyfredol, rydym yn hynod ffodus o gael erthygl gan Iwan Bryn James ar sut i edrych ar ôl ein llyfrau. Bu mawr alw am y fath wybodaeth. Gobeithir cael cyfres ganddo. Efallai y gallwn drefnu cwrs bore yn y dyfodol agos a gweld arbenigwr wrth ei waith. Amser a ddengys.

Cywiriad yr Awdur

Erthygl yr *Hen Glochyddion* eto, rhifyn Y Gwanwyn, colofn 2 paragraff 1. Yn lle Llanrhaeadr ym Mochnant, dylid darllen Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch.

At y Golygydd

5 Rue de la Motte Fablet
Roazhon / Rennes
35000
Breizh / Bretagne
Ffrainc

Annwyl Olygydd,

Tybed a allech gyhoeddi'r pwt o lythyr canlynol? Byddwn yn ddiolchgar iawn gan fod angen y gweithiau isod arnaf at ddibenion ymchwil.

A oes unhryw un a fyddai'n fodlon

gwerthu, benthg neu lungopio'r erthygl a'r llyfrau canlynol im? Y mae eu dirfawr angen arnaf.

1. Erthygl John Rhys ar darddiad yr englyn yn Y Cymmrodorion, 1905;
 2. Blodeuglwm o Englynion, W.J. Gruffydd;
 3. Blodau o Hen Ardd, T. Gwynn Jones.
- Byddwn yn ddiolchgar dros ben am unrhyw gymorth.

Guto Rhys
gutorhys@yahoo.com

**Enillwyr Raffl Fawr
y Gymdeithas**

Crochenwaith Portmeirion: Mrs. Gwenno Mai Parry, Tegfan, Llanaelhaearn, Caernarfon LL54 5BE

Cawg Crisial Cymreig: Mrs. Beryl Jones, Nant Madyn, Llanegryn, Tywyn LL36 9SU

Casgliad o Lyfrau gan y Llyfrgell Genedlaethol: Mr. Emrys Williams, 54 Min y Don Ave., Yr Hen Golwyn LL29 9TA

Lamp Glowr: Janet Davies, Bryn Ceitho, Llangeitho, Tregaron.

Cloc Llechen: Carol Allman, Llys Awel, Winllan Rd., Llansanffraid, Powys SY22 6AH

Basged o Ffrwythau: Mrs. Gwenan Evans, Tynbwich, Llanuwchllyn, Y Bala

Tocyn llyfr gwerth £25: Mrs R. Grey Davies, 11 Cae Bryn, Garth, Llangollen LL20 7DQ

Tocyn llyfr gwerth £20: Mrs. Ann M. Jones, Cilan, 47 Gwenfo Drive, Gwenfo, Caerdydd CF 56 BR